Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Hysbysiad archwilio lle mae'r Swyddogion Ariannol Cyfrifol wedi tystio'r cyfrifon ond nid yw'r corff a archwilir yn cwrdd, ac felly'n analluog i gymeradwyo'r cyfrifon

Mae Rheoliad 10(1) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddogion Cyllid Cyfrifol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ac Prif Cwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn llofnodi'r datganiad cyfrifon ac yn rhoi dyddiad arno, ac yn ardystio'i fod yn cyfleu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno. Yn ôl y Rheoliadau roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2020.

Fe wnaeth y Swyddogion Cyllid Cyfrifol lofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar 29 Mai ac eto ar 29 Gorffennaf.

Mae Rheoliad 10(2) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl yr ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyfeirir ato uchod, bod, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ac Prif Cwnstabl Heddlu Dyfed-Powys yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad cyfrifon archwiliedig. Yn ôl y Rheoliadau roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Gorffennaf 2020.

O ganlyniad i'r achos o COVID-19, nid yw'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2019-20 wedi cael ei gwblhau eto ac nid oes barn archwilio wedi cael ei darparu. Y datganiad cyfrifon anarchwiliedig yw'r datganiad cyfrifon a gyhoeddir.